| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **25 Tachwedd 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill/ Paul McGrady** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Richard Weigh, Prif Gyfrifydd** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Cyllid** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am gyllideb refeniw ac arbedion y Cyngor fel y cytunwyd arnynt ar gyfer 2014/15. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad cryno o'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi diweddariad ar sefyllfa ariannol bresennol y cyngor.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2014/15 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer y gyllideb.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o gyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2014/15 a fanylir yn **(Atodiad 1)**. Cyllideb refeniw net y Cyngor yw £188 miliwn (£192 miliwn yn 13/14). Rhagwelwyd y bydd tanwariant o £158,000 (£9,000 yn is na'r mis diwethaf). Ceir mwy o fanylion isod. Cytunwyd ar arbedion o £7.1 miliwn fel rhan o'r gyllideb a cheir y manylion yn **Atodiad 2**. Mae'r atodiad yn dangos yr ystyrir fod 90% wedi'u cyflawni gyda 10% ar y gweill.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheoli cyllidebau refeniw a chyfalaf y cyngor yn effeithiol ac mae cyflawni'r strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb yn sylfaen i weithgarwch ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae manylion gwasanaethau perthnasol ar gael yn y paragraffau isod.

**Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden** – yn ôl y rhagolwg presennol bydd y gwasanaeth yn adennill ei gostau. Fodd bynnag, mae aelodaeth mewn safleoedd hamdden yn parhau i gynyddu ac os bydd y duedd hon yn parhau,

mae'n debygol y bydd tanwariant arian parod gan yr Adran ar ddiwedd y flwyddyn.

**Gwella Ysgolion a Chynhwysiant –** Rhagwelir ar hyn o bryd mai tanwariant y gwasanaeth fydd £146,000 oherwydd bod y gwariant yn is na'r hyn a gynllluniwyd ar leoliadau Blynyddoedd Cynnar i blant 3 oed (tua £50,000 yn llai na'r gyllideb) ac arbedion lleoedd gwag, yn ymwneud yn rhannol â secondiad i Lywodraeth Cymru ac yn rhannol o ganlyniad i ailstrwythuro yn y gwasanaeth mewn ymateb i'r ymarferiad Rhyddid a Hyblygrwydd.. Hoffai'r gwasanaeth ddefnyddio'r tanwariant hwn i helpu costau cronfa ymadael ac unrhyw oedi posibl yn ymwneud ag arbedion a nodwyd ar gyfer 2015/16.

**Gwella Busnes a Moderneiddio -** Mae'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn dangos tanwariant o £50,000 yn ymwneud ag arbedion swyddi gwag net yn sgil ailstrwythuro'r gwasanaeth.

**Cyllid ac Asedau –** Rhagwelir y bydd **Eiddo** yn tanwario o £20,000 oherwydd bod costau'r Tîm Buddsoddiadau Eiddo Strategol yn llai na'r hyn a gynlluniwyd yn y flwyddyn. Mae gan y Tîm gyllid penodol am ddwy flynedd ac mae'r tanwariant yn bennaf oherwydd arbedion mewn costau staff ac arolwg allanol a chostau datblygu. Rhagwelir y bydd tanwariant o £15,000 mewn **Cyllid** sy'n ymwneud â pheidio llenwi swydd wag. Bydd y tanwariant yn cael ei ddefnyddio i ariannu costau ailstrwythuro fel rhan o arbedion cyllideb 2015/16.

**Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd -** fel y nodwyd mewn adroddiadau blaenorol, mae'r gwasanaeth yn wynebu gwahanol bwysau a risgiau yn 2014/15. Rhagwelir gorwariant o £472,000 ar hyn o bryd er bod y gwasanaeth yn parhau i geisio nodi camau rheoli i ymdopi â'r pwysau hyn yn y gyllideb gyffredinol. Bydd cronfeydd wrth gefn y gwasanaeth hefyd yn cael eu hystyried fel opsiynau ariannu i leihau'r pwysau yn y flwyddyn gyfredol.

Mae'r gorwariant o £221,000 yn parhau o fewn y Gwasanaeth Cludiant Ysgol ac mae'n seiliedig ar nifer y disgyblion ym mis Medi ac anghenion cludiant. Mae Grŵp Tasg a Gorffen yn gweithio tuag at nodi atebion parhaol i'r broblem hon.

Parhaodd y gostyngiad mewn incwm parcio a welwyd yn ystod 2013/14 ynghyd â gostyngiad parhaus mewn incwm Rhybuddion Talu Cosb. Mae'r gwasanaeth hwn ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol er mwyn ceisio lliniaru'r gorwariant, sydd ar hyn o bryd yn £243,000:

- Rheoli perfformiad staff gorfodi yn well i gynyddu incwm Rhybuddion Talu Cosb (cyflawnwyd gwelliant o £10,000 y mis hwn).
- Mae'r costau gweithredol yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd i geisio gwneud iawn am effaith y gostyngiad mewn incwm.
- Bydd tariffau prisio meysydd parcio yn cael eu hadolygu fel rhan o'r adolygiad traffig a pharcio parhaus.

Fel yr amlygwyd yn adroddiad y mis diwethaf, mae pryder hefyd ynghylch incwm y ffioedd dylunio y mae’r Cyngor yn eu derbyn gan Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (ACGChC). Rhagwelir y bydd tangyflawniad incwm o £116,000 o ganlyniad i duedd barhaus o ostyngiad yn nifer y tasgau gwaith a dderbynnir gan ACGChC. Mae'r gwasanaeth yn awyddus i leihau costau er mwyn cyfyngu ar effaith y newid hwn, fodd bynnag, y gyllideb incwm ffioedd yw £221,000 felly dim ond yn rhannol y gall gostyngiadau mewn gwariant ddatrys y broblem.

**Gwasanaethau Oedolion a Busnes -** Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd y gwasanaeth yn llwyddo i adennill ei gostau yn 2014/15. Fodd bynnag, mae arwyddion yn dangos y gellid cael tanwariant unigryw o £145,000 oherwydd bod costau staffio sydd fel arfer yn cael eu codi ar y gyllideb refeniw yn cael eu cwrdd drwy’r grant Cronfa Gofal Canolradd.

**Tai a Datblygu Economaidd –** mae’r adran Datblygu Economaidd a Busnes yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd. Tybiwyd y byddai unrhyw danwariant ar gyllidebau Cynlluniau Tref ac Ardal yn cael ei dwyn ymlaen os cytunir ar y cynnig i arbed ar y gyllideb drwy gael gwared ar y gyllideb o 2015/16.

**Gwasanaethau Plant a Theuluoedd –** ar hyn o bryd rhagwelir y bydd tanwariant o £228,000 (£197,000 a adroddwyd fis diwethaf) yn sgil y ffaith fod amryw o’r cynigion arbedion ar y gyllideb ar gyfer 15/16 eisoes wedi eu gweithredu yn llawn eleni ynghyd â thanwariant a ragwelir ar y gyllideb lleoliadau arbenigol. Mae’r tanwariant cyffredinol yn ystyried pwysau sy’n codi ar hyn o bryd ar gyllideb y Rhai sy'n Gadael Gofal yn ogystal â’r oedi wrth adael cyfleuster Tir Na Nog yn llwyr – roedd y gyllideb wedi tybio y byddai hyn yn digwydd o 1 Ebrill 2014 ond ni chyflawnwyd tan fis Gorffennaf).

Cytunodd y Cabinet i neilltuo £250,000 o danwariant y gwasanaeth yn 2013/14 i gronfa gyfalaf er mwyn ariannu costau addasu eiddo gofalwyr maeth mewnol. Mae’r achos busnes yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ac mae pum gofalwr maeth wedi cytuno dros dro i gymryd rhan yn y prosiect. Mae’r Gwasanaethau Eiddo ar hyn o bryd yn gweithio ar y goblygiadau tebygol o ran cost o wneud y gwaith

**Ysgolion** – ar ddiwedd mis Hydref y rhagamcan ar gyfer balansau ysgolion yw £2.768 miliwn, gostyngiad o £1.124 miliwn ar falansau a ddygwyd ymlaen o 2013/14 (£3.892 miliwn). Rhagwelir tanwariant o £38,000 ar y gyllideb nad yw wedi’i dirprwyo ar hyn o bryd.

Rhagwelir tanwariant o £170,000 yn y cyllidebau **corfforaethol** fel yr adroddwyd fis diwethaf. Tybir y bydd unrhyw danwariant corfforaethol yn cyfrannu at ariannu'r Cynllun Corfforaethol. Ar ddechrau 2014/15 roedd cronfeydd wrth gefn arian parod y **Cynllun Corfforaethol** yn £14.4 miliwn. Gan ganiatáu ar gyfer ariannu a gwariant sydd wedi eu rhagamcan yn ystod y flwyddyn, amcangyfrifir mai balans y Cynllun Corfforaethol ddiwedd y flwyddyn fydd £15.6m.

**Cyfrif Refeniw Tai** Mae'r sefyllfa refeniw ddiweddaraf yn rhagdybio y bydd cynnydd o £82,000 mewn balansau ddiwedd y flwyddyn o'i gymharu â chynnydd o £163,000 yn y gyllideb. Mae'r gyllideb refeniw yn rhagdybio y defnyddir £943,000 i ariannu gwariant cyfalaf. Rhagolwg gwariant y Cynllun Cyfalaf Tai yw £6.1 miliwn.

**Rheoli'r Trysorlys** - Ar ddiwedd mis Hydref, cyfanswm benthyciadau'r cyngor oedd £148.551 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 5.45%. Roedd balansau buddsoddi yn £40.35 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 0.61%.

Gwariant y Cynllun Cyfalaf oedd £12.20 miliwn yn erbyn Cynllun o £36.2 miliwn ddiwedd mis Hydref. Mae'r Cynllun Cyfalaf yn cynnwys amcan wariant o £13.1 miliwn ar y Cynllun Corfforaethol. Mae crynodeb o'r cynllun wedi ei gynnwys yn **Atodiad 3** a diweddariad ar y prosiectau mawr yn **Atodiad 4**.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Cyflwynwyd crynodeb o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb i'r Cyngor i gefnogi'r arbedion yn y gyllideb eleni.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Cyn eu cymeradwyo gan y Cyngor Sir, cytunodd Penaethiaid Gwasanaeth ac Aelodau Arweiniol ar yr arbedion, a chawsant eu cyflwyno mewn gweithdai cyllideb i'r aelodau a chawsant eu dosbarthu i staff. Cafodd y cynigion i fantoli'r gyllideb eu trafod yn fanwl yn y gweithdai i aelodau a rhoddwyd y cyfle i'r aelodau godi materion cyn mynd â'r adroddiad terfynol ger bron y Cyngor. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi derbyn diweddariadau rheolaidd gan fod ganddo swyddogaeth drosolwg dros broses y gyllideb.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'n bwysig bod gwasanaethau'n parhau i reoli cyllidebau'n ddoeth a bod unrhyw arian dros ben o fewn y flwyddyn yn cael ei ystyried yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol tymor canolig, yn arbennig o ystyried graddfa'r gostyngiadau y mae'n rhaid eu gwneud yn y gyllideb yn ystod y ddwy neu dair blynedd nesaf.

**10. Pa risgiau sydd yna, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Dyma'r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r cyngor wedi ei wynebu a byddai methu a chyflawni'r strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau yn y flwyddyn ariannol gyfredol ac yn y dyfodol. Bydd monitro a rheoli'r gyllideb yn effeithiol yn helpu sicrhau bod y strategaeth ariannol yn cael ei chyflawni.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol dan Adran 151, Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.